**AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL**

**30 Medi 2020**

Yn Bresennol: Cynghorydd P Harries (Cadeirydd)
Cynghorydd P Baker, Cynghorydd K Doolin, Cynghorydd M Evans, Dr M Havard, Dr R Heath-Davies, Mrs S Hoss, Mrs J James, Cynghorydd M James, Mr G Jones, Cynghorydd P Kidney, Cynghorydd PJ Morgan, Cynghorydd R Owens, Dr R Plummer, Cynghorydd A Wilcox, Cynghorydd M Williams a'r Cynghorydd S Yelland.

[Cyrhaeddodd y Cynghorydd Mrs D Clements adeg ystyried Cofnodion y Pwyllgor Safonau (gweler Cofnod 6(iii)).]

(Cyfarfod Rhithiol: 10.00am –11.50am; 12.00pm – 1.05pm)

**1. Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Nid oedd unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

**2. Datgan Buddiannau**
Datganodd y Cynghorydd M Evans bod ganddo fuddiant yn yr elfen Canllawiau Cynllunio Atodol o'r Cynllun Datblygu Lleol (gweler Cofnod 8) ac ni chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth na phleidleisio ar Benderfyniadau 8(e) i 8(h).

**3. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29ain o Orffennaf 2020 i'w cadarnhau a'u dilysu.

O ran Cofnod 5 – Cyhoeddiadau'r Cadeirydd, dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi mynychu nifer o gyfarfodydd ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru, fel eu Cadeirydd. Llongyfarchodd yr Aelodau ef ar gael ei benodi yn Gadeirydd, a dymunent i'r llongyfarchiadau gael ei gofnodi. Hefyd o ran Cofnod 14, Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, roedd y paragraff olaf yn llongyfarch yr Ymddiriedolwyr ar eu llwyddiant. Gofynnwyd am i waith y swyddogion hefyd gael ei amlygu yn hyn, ac awgrymwyd felly bod y gair "Ymddiriedolwyr" yn cael ei ddisodli gan "yr Ymddiriedolaeth".

**PENDERFYNWYD** cadarnhau a dilysu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 29ain o Orffennaf 2020 cyn belled ag y cynhwysir y newidiadau uchod.

**4. Materion yn codi**
Nid oedd unrhyw faterion wedi codi.

**5. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd wedi mynychu unrhyw ddigwyddiadau ers y cyfarfod diwethaf o'r Awdurdod oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Serch hynny dywedodd ei fod wedi mynychu dau gyfarfod o Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar ran Parciau Cenedlaethol Cymru, yn ogystal â chyfarfod o'r corff hwnnw i baratoi ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol gyda Gweinidogion. Roedd Parciau Cenedlaethol Cymru wedi cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol i drafod y gwersi a ddysgwyd o'r cyfod clo, a'r dyfodol gan gynnwys yr adferiad gwyrdd a'r tirweddau dynodedig. Byddai cyfarfod arall yn cael ei gynnal gyda'r Dirprwy Weinidog yn ddiweddarach yn yr wythnos i drafod gwahanol faterion megis tirweddau cynaliadwy, Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r Fforwm Mynediad.

Roedd y Cadeirydd, ynghyd â'r Cynghorydd R Owens a Mrs S Hoss, hefyd wedi cyfarfod â'r Pwyllgor Ieuenctid, a hefyd, ynghyd â'r Dirprwy Gadeirydd, wedi cyfarfod ag Archwilio Cymru. Byddai'n mynychu Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol y prynhawn hwnnw yng nghwmni'r Prif Weithredwr.

Diweddodd drwy ddiolch i'r Aelodau ac i'r staff am eu dyfalbarhad a'u cefnogaeth barhaus yn yr amgylchiadau anodd sydd ohoni, gan obeithio bod eu teuluoedd a'u cyfeillion yn parhau yn ddiogel.

**NODWYD.**

**6. Adroddiadau cyfarfodydd amrywiol Bwyllgorau'r Awdurdod**

Cyflwynwyd yr adroddiadau canlynol o gyfarfodydd nifer o Bwyllgorau'r Awdurdod i'r Aelodau i'w hystyried/er gwybodaeth:

(i) Pwyllgor Rheoli Datblygu a gynhaliwyd ar 15 Gorffennaf 2020;
(ii) Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2020;
(iii) Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2020;
(iv) Pwyllgor Personnel a gynhaliwyd ar 22 Gorffennaf 2020; a'r
(v) Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2020.

O ran cofnodion y Pwyllgor Personnel, holodd yr Aelodau beth oedd canran yr ymatebion i'r Arolwg o Farn y Staff, ac atebodd yr swyddogion bod y ganran yn uwch na 80%. Roedd y canlyniadau wedi'u cyflwyno gerbron y Tîm o Arweinyddion yr Awdurdod, ac roedd trefniadau ar droed i gynnal cyfarfodydd pellach gyda'r Arweinyddion Tîm, y Fforwm o Gynrychiolwyr Staff, a'r grwpiau ffocws ehangach o staff i gyflwyno data ansoddol, ac ymchwilio ymhellach i'r canfyddiadau oedd wrth wraidd y ffigurau.

Hefyd roedd yr Aelodau yn bryderus am effeithiau'r feirws COVID-19 ar faich gwaith y staff a'r lefelau straen, yn enwedig ar yr adran gynllunio. Atebodd y swyddogion eu bod yn ymwybodol o'r pwysau ar y tîm cynllunio lle'r oedd camau eisoes wedi'u cymryd i fynd i'r afael â'r ôl-groniad o geisiadau cynllunio. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod sawl ffordd i'r staff godi pryderon ynghylch baich gwaith a materion eraill megis trafodaethau gyda'r rheolwyr llinell neu'r Rheolwr Adnoddau Dynol, cyfarfodydd o'r Fforwm Staff, a thrafodaethau gyda'r Aelodau fel rhan o'r Fforwm Gweithwyr.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu/derbyn cofnodion y Pwyllgorau a enwir uchod.

**7. Adroddiad ISA260 i'r rhai sydd â'r Cyfrifoldeb am Lywodraethu**

Estynnodd y Cadeirydd groeso i Deryck Evans o Swyddfa Archwilio Cymru i'r cyfarfod, er mai dim ond drwy sain y gallai ymuno yn anffodus. Eglurodd bod yr Adroddiad ISA260 yn rhoi crynodeb o'r prif ganfyddiadau o'r archwiliad o gyfrifon yr Awdurdod am 2019-20.

Nid oedd yn syndod bod COVID-19 wedi effeithio ar yr archwiliad. Serch hynny dymunai Mr Evans ddiolch i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith dan amgylchiadau anodd, ac am y cymorth yr oeddent wedi'i roi i'r archwilwyr. Dywedodd mai rhaid oedd dyfeisio ffyrdd newydd o weithio i gael y dystiolaeth angenrheidiol i wneud yr archwiliad, a'r gobaith oedd y byddai'r gwersi a ddysgwyd yn gwneud y broses yn fwy effeithlon y flwyddyn nesaf.

Er bod rhai mân faterion oedd gofyn eu cywiro, bwriad yr Archwilydd oedd cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni. Fodd bynnag tynnwyd sylw ym mharagraff 17 at ddiwygio technegol oedd angen ei wneud gan fod cymal ansicrwydd perthnasol wedi'i ddatgelu mewn adroddiad gwerthuso diwedd blwyddyn rheolwr cronfa bensiwn ar gyfer cronfa eiddo y DU a reolir ganddynt ar ran Cronfa Bensiwn Dyfed.

Dywedwyd yn y cyfarfod bod y ffigurau a nodwyd ym mharagraff 17 o'r Adroddiad ISA260 yn anghywir, ac y dylai'r frawddeg fod wedi darllen "Cyfanswm gwerth y gronfa hon ar 31 Mawrth 2020 yw *£296 +£53m [£349m]* miliwn ac mae cyfran Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro o'r gronfa hon yn *£3.25 miliwn +£584k [£3.83m]* (1.1%)."  [Y diwygiadau mewn italig.]  O ganlyniad i hyn, roedd newidiadau hefyd wedi'u gwneud i nodyn 33 o'r datganiad o gyfrifon. Fodd bynnag, roedd yr Archwilydd yn pwysleisio ei fod yn hapus bod y cyfrifon yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol yr Awdurdod.

Bu'r Rheolwr Cyllid (Prif Swyddog Ariannol) wedyn yn ateb rhai cwestiynau oedd wedi'u derbyn ynglŷn â Chyfrifon 2019-20, oedd nghlwm wrth yr adroddiad. Dywedodd nad oedd angen i'r ffigurau mewn lliw coch fod yn goch ac y dylent fod wedi'u hargraffu mewn du. Gan egluro anghysondeb rhwng y ffigurau ar dudalen 55 o'r cyfrifon bod gwerthiant nwyddau masnachol a thaliadau mynediad i safleoedd yr Awdurdod yn wastad neu yn is nag yn 2017/18 tra bod yr Adroddiad Blynyddol ar fodloni'r Amcanion Llesiant yn nodi ar dudalen 152 bod cynnydd yn yr incwm o werthu nwyddau masnachol, incwm meysydd parcio a thaliadau eraill wedi gwneud iawn am y gostyngiad yn y cyllid craidd. Fodd bynnag roedd yr adroddiad Amcanion Llesiant yn cymharu â ffigurau 2013/14. O ran y prosiectau SDF a restrir ym mharagraff 31, prosiectau yw'r rhain y talwyd amdanynt yn y flwyddyn ariannol 19/20 ac nid yn y flwyddyn y cafodd y prosiectau eu cymeradwyo.

Llongyfarchodd yr Aelodau y Rheolwr Cyllid a'i dîm am set ardderchog o gyfrifon ac adroddiad diamod gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac ychwanegodd y Prif Weithredwr ei ddiolch iddynt hwy ac i Archwilio Cymru am yr hyn y llwyddwyd i'w gyflawni yn ystod rhai misoedd anodd.

**PENDERFYNWYD**:

a) Derbyn adroddiad ISA260 Swyddfa Archwilio Cymru yn unol â'r diwygio ym mharagraff 17; a
b) Chymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon 2019/20 yn unol â'r diwygio canlyniadol i nodyn 33.

## 8. Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 – Mabwysiadu a Chanllawiau Cynllunio Atodol

Atgoffwyd yr Aelodau mai yn dilyn yr Awdurdod yn cymeradwyo fis Tachwedd 2018 i gyflwyno'r cynllun datblygu, bod Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) 2 (gan gynnwys y Newidiadau Ffocws arfaethedig) wedi cael ei archwilio yn ystod 2019 gerbron Arolygydd Cynllunio a benodwyd gan Lywodraeth Cymru, Mrs Nicola Gulley i weld pa mor gadarn yw'r cynllun.

Roedd yr Awdurdod wedi derbyn Adroddiad rhwymol yr Arolygydd ar y 13eg o Fai 2020 ac roedd crynodeb annhechnegol o'r adroddiad hwn ynghlwm wrth yr adroddiad oedd gerbron y Pwyllgor, ynghyd â chopi drafft o'r Cynllun a fabwysiadwyd (testun a mapiau) gan gynnwys y newidiadau yr oedd yr Arolygydd wedi'u hargymell, a'r Datganiad Mabwysiadu drafft. Roedd y dogfennau hyn, ynghyd â'r Arfarniad o Gynaliadwyedd terfynol (sy'n ymgorffori'r Arfarniad Amgylcheddol Strategol), yr Asesiad o'r Rheoliadau Cynefinoedd a'r asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, wedi'u cyhoeddi ar wefan yr Awdurdod, a rhoddwyd gwybod am hyn i'r rhai oedd wedi cymryd rhan yn y gwaith o baratoi'r Cynllun.

Dywedwyd ei bod yn ofynnol fel arfer i'r Awdurdod fabwysiadu'r Cynllun cyn pen wyth wythnos o dderbyn Adroddiad yr Arolygydd. Fodd bynnag, oherwydd yr amgylchiadau eithriadol yn sgîl COVID-19 ni fu hyn yn bosibl. Serch hynny, mae amseriad y mabwysiadu wedi'i gytuno gyda swyddogion Llywodraeth Cymru.

Daeth y Cynllun i rym ar y dyddiad y mabwysiadwyd y Cynllun, ac eglurodd yr adroddiad y byddai pob cais cynllunio oedd heb eu penderfynu erbyn dyddiad y mabwysiadu yn cael eu penderfynu o dan bolisïau CDLl 2, er dywedwyd bod polisïau CDLl 2 wedi bod yn ystyriaeth gynllunio berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau ers derbyn Adroddiad yr Arolygydd.

Aeth yr adroddiad rhagddo i egluro bod Canllawiau Cynllunio Atodol newydd wrthi'n cael eu drafftio, a bod y Canllawiau Cynllunio Atodol presennol yn cael eu diweddaru i'w gwneud yn berthnasol i'r CDLl 2. Gofynnwyd i'r Aelodau felly i gario drosodd rhai o'r Canllawiau Cynllunio Atodol yn ffurfiol o'r CDLl 1 fel mesur dros-dro at ddibenion Rheoli Datblygu tra bod Canllawiau Cynllunio Atodol newydd yn cael eu paratoi (Tai Fforddiadwy; Ansadrwydd Tir – Gweithfeydd Glo; Cymeriad y Dirwedd; Colli Gwestai; Rhwymedigaethau Cynllunio; Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol; Diogelu Parthau Mwynau; Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt; a Chymeriad y Morwedd); cymeradwyo rhai Canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori (Safonau Parcio; Cynllun Bro – Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a Thai Fforddiadwy; Dylunio a Datblygu Cynaliadwy; Archaeoleg a Bioamrywiaeth, a'r ddau olaf i'w cynhyrchu ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro) a chymeradwyo rhai Canllawiau drafft ar gyfer ymgynghori ond hefyd cymeradwyo eu bod yn cael eu defnyddio fel mesur dros-dro at ddibenion Rheoli Datblygu (Datblygiad Carafanau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau, ac Ynni Adnewyddadwy ac eithrio'r cyngor ar gyfer Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Marloes a Mynydd y Preseli o ran datblygiadau tyrbinau gwynt. Bydd adroddiadau pellach ar yr ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol yn cael eu cyflwyno gerbron yr Awdurdod maes o law.

Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd ynglŷn â'r defnydd a wneir o'r Canllawiau at ddibenion Rheoli Datblygu tra bod y Canllawiau yn dal yn destun ymgynghori. Eglurodd Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc gan fod Polisi 41 (Datblygiad Carafanau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau) o'r CDLl 2 yn seiliedig ar y dystiolaeth a ganfyddwyd yn y Canllawiau Cynllunio Atodol, gellid ystyried bod y Canllawiau hyn yn ystyriaeth gynllunio berthnasol mewn cynigion o hyn ymlaen.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddogion a'u cymeradwyo am y gwaith oedd wedi'i gyflawni. Hefyd roeddent yn falch i weld y cydweithio gyda Chyngor Sir Penfro ac o'r farn y byddai'r cyhoedd yn gweld bod hyn yn fuddiol.

O ran y canllawiau ar Gymeriad y Dirwedd, holodd un Aelod ynghylch effaith y Clefyd Coed Ynn ar y dirwedd. Atebodd y swyddogion y byddent yn cysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â goblygiadau hynny.

**PENDERFYNWYD**:

a) Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 (oedd ynghlwm fel Atodiad B), fel y'i ddiwygiwyd yn unol ag Adroddiad rhwymol yr Arolygydd.
b) Cymeradwyo mai dyddiad gweithredu Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 yw'r 30ain o Fedi 2020. Byddai pob cais a ddaw i law o'r dyddiad hwnnw yn cael eu penderfynu yn ôl polisïau Cynllun Datblygu Lleol 2.
c) Awdurdodi cyhoeddi'r Cynllun Datblygu Lleol 2 ynghyd â'r Datganiad Mabwysiadu (Atodiad C) a'r Arfarniad o Gynaliadwyedd / Asesiad Amgylcheddol Strategol terfynol, yr Asesiad o'r Rheoliadau Cynefinoedd a'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn unol â'r Rheoliadau a'r canllawiau.
d) Awdurdodi Pennaeth Cyfarwyddyd y Parc i sicrhau y cydymffurfir â'r rheoliadau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun.
e) Cymeradwyo cario drosodd y canllawiau cynllunio atodol sy'n ymwneud â Thai Fforddiadwy; Ansadrwydd Tir – Gweithfeydd Glo; Cymeriad y Dirwedd; Colli Gwestai; Rhwymedigaethau Cynllunio; Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhanbarthol; Diogelu Parthau Mwynau; Effaith Gronnol Tyrbinau Gwynt; a Chymeriad y Morwedd fel canllawiau cynllunio atodol dros-dro o dan Cynllun Datblygu Lleol Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro 2 i'w defnyddio at ddibenion rheoli datblygu.
f) Cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ymwneud ag Archaeoleg; Bioamrywiaeth; Safonau Parcio; Cynllun Bro – Ymddiriedolaeth Tir Cymunedol a Thai Fforddiadwy; a Dylunio a Datblygu Cynaliadwy ar gyfer ymgynghori.
g) Cymeradwyo defnyddio'r canllawiau cynllunio atodol drafft ar gyfer Datblygiad Carafanau, Gwersylla a Chabanau Gwyliau fel mesur dros-dro at ddibenion rheoli datblygu tra bod y canllawiau yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori.
h) Cymeradwyo defnyddio'r canllawiau cynllunio atodol drafft ar gyfer Ynni Adnewyddadwy fel mesur dros-dro at ddibenion rheoli datblygu ac eithrio'r cyngor ar gyfer Ardaloedd Cymeriad Tirwedd Marloes a Mynydd

y Preseli o ran datblygiadau tyrbinau gwynt.  Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy hefyd yn cael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori.

[Gan fod y Cynghorydd M Evans wedi datgelu buddiant, ni phleidleisiodd ar benderfyniadau e) i h) uchod.]

**9. Adroddiad Blynyddol ar Fodloni'r Amcanion Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2) 2019/20**

Atgoffwyd yr Aelodau ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod o dan Fesur Llywodraeth Cymru (Cymru) gyhoeddi Cynllun Gwella Rhan 2 erbyn y 31ain o Hydref. Roedd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 hefyd yn ei gwneud yn ddyletswydd ar yr Awdurdod i nodi ei Amcanion Llesiant ac i ddangos sut oedd yr amcanion hynny yn cyfrannu at y saith o Nodau Llesiant Llywodraeth Cymru. O dan y ddeddfwriaeth, roedd yn rhaid i gyrff cyhoeddus gyhoeddi adroddiad bob blwyddyn yn dangos y camau a gymerwyd ganddynt i fodloni eu hamcanion. Hefyd rhaid oedd iddynt ddangos sut oeddent wedi defnyddio'r 5 ffordd o weithio o dan yr egwyddorion datblygu cynaliadwy, sef Tymor Hir, Atal, Integreiddio, Cydweithredu a Chynnwys.

Roedd y ddogfen oedd gerbron yr Awdurdod yn Gynllun Gwella Rhan 2 a hefyd yr adroddiad blynyddol ar y camau a gymerwyd yn erbyn ei Amcanion Llesiant. Er mwyn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb a bioamrywiaeth yn cael eu prif-ffrydio ar draws yr Awdurdod, mae'r ddogfen hefyd yn adroddiad blynyddol yr Awdurdod ar gydraddoldeb ac yn un elfen o adroddiadau'r Awdurdod ar y modd y mae wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd Adran 6 o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r camau a gymerwyd yn erbyn y rhaglen waith a gynigiwyd yng nghynllun Corfforaethol ac Adnoddau yr Awdurdod ar gyfer 2019-20. Fodd bynnag ers mis Mawrth 2020 roedd y Pandemig COVID-19 a'r rheoliadau wedi effeithio ar y gallu i gyflawni rhai o'r meysydd gwaith.

Dywedodd y swyddog yn y cyfarfod bod gwall ar dudalen 43 lle nodir yn yr ail baragraff bod y cwrs preswyl i ieuenctid wedi'i gynnal fis Chwefror yn hytrach na mis Mawrth 2020.

Diolchodd yr Aelodau i'r swyddog am y gwaith anferthol oedd wedi'i wneud i baratoi'r adroddiad, a gofynnwyd cwestiynau ynghylch gwahanol agweddau o'r adroddiad. Awgrymwyd y byddai crynodeb o'r llwyddiannau allweddol yn ychwanegiad gwerth chweil yn y blynyddoedd sydd i ddod.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar Fodloni'r Amcanion Llesiant (Cynllun Gwella Rhan 2) 2019/20.

*[Gohiriwyd y cyfarfod rhwng 11.50am a 12.00pm].*

**10. Datblygu, Cymeradwyo a Gweithredu Polisïau Adnoddau Dynol**

Dywedwyd bod Adran Adnoddau Dynol (AD) yr Awdurdod wedi ymrwymo i wneud adolygiad 'o'r gwraidd i'r brig' o bob polisi AD, y mae 80 a mwy ohonynt, i'w symleiddio a'u gwneud yn haws i'r staff ac i'r rheolwyr eu deall.

Oherwydd maint y dasg a wynebir, roedd dogfen bolisi wedi'i llunio oedd â'r nod o sicrhau proses gyson sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer datblygu, cymeradwyo a rheoli pob polisi a gweithdrefn AD. Roedd y ddogfen yn ffurfioli'r broses o ymgynghori a chymeradwyo ar gyfer mabwysiadu polisïau AD yr Awdurdod yn ffurfiol, gan gadw'r ddysgl yn wastad rhwng yr angen am herio'n drwyadl a gweithredu'n amserol.

Awgrymodd un Aelod, er nad oedd yn anghytuno â'r broses a nodwyd o gymeradwyo, bod achosion lle gallai fod yn ddefnyddiol i gyflwyno gwybodaeth am faterion Adnoddau Dynol gerbron y Pwyllgor Personnel, ac awgrymwyd y gellid rhoi diweddariad, a allai fod ar lafar, ym mhob cyfarfod.

Holodd Aelod arall ai'r bwriad oedd dirprwyo'r materion hyn yn barhaol neu dros-dro. Os yn barhaol, awgrymwyd bod y polisi yn cael ei adolygu yn y ddwy flynedd nesaf. Hefyd awgrymwyd y gallai'r Pwyllgor Personnel gael trafodaeth ynghylch ei Gylch Gorchwyl fyddai angen ei newid os cymeradwyir y polisi.

**PENDERFYNWYD**:

a) Cymeradwyo'r dulliau o Ddatblygu, Cymeradwyo a Gweithredu'r Polisïau Adnoddau Dynol fel y'u nodwyd yn y polisi drafft, a'r newidiadau angenrheidiol a wnaed i Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Personnel;
b) Adolygu'r Polisi cyn pen dwy flynedd o ddyddiad y cyfarfod hwn; a
c) Bod agenda'r Pwyllgor Personnel i gynnwys eitem sefydlog i roi diweddariad ar Ddatblygu Polisïau.

**11. Cynllun Hyfforddiant ar Ddatblygu Aelodau**

Atgoffwyd yr Aelodau bod pob Aelod wedi cael cais yn ystod 2020 i lenwi adolygiad datblygu personol, a hyd yn hyn, roedd deg wedi dychwelyd eu Cynlluniau Cymorth Personol. Roedd Cynllun Hyfforddiant wedi'i ddatblygu o'r Cynlluniau Cymorth hyn ac roedd y cynllun hwn ynghlwm wrth yr adroddiad, ynghyd â chrynodeb o'r anghenion hyfforddiant a glustnodwyd gan y deg Aelod, oedd wedi llywio'r gwaith o baratoi'r cynllun.

Roedd y Cynllun Hyfforddiant wedi'i drafod yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2020 pan fabwysiadwyd y cynllun cyn belled â bod dau faes pwnc ychwanegol yn cael eu cynnwys. Roedd y ddau faes dan sylw wedi'u hychwanegu at y Cynllun Hyfforddiant oedd gerbron yr Aelodau.

Diolchodd Cadeirydd y Pwyllgor Cefnogi a Datblygu Aelodau y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd am ddatblygu'r Cynllun Hyfforddiant, ac anogodd yr wyth Aelod hynny o'r Awdurdod oedd heb eto lenwi eu Hadolygiad Datblygu Personol i wneud hynny, neu o leiaf lenwi'r adran ar eu hanghenion hyfforddiant. Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhawyd bod y Cynllun yn ddigon hyblyg i ymgorffori unrhyw anghenion hyfforddiant ychwanegol a glustnodir yn ystod y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r Cynllun Hyfforddiant Cefnogi a Datblygu Aelodau.

**12. Penodi Aelod ar Fwrdd Ymweld â Sir Benfro**

Dywedwyd bod yr Awdurdod fis Chwefror 2020 wedi cytuno i gefnogi'r bwriad i greu Sefydliad newydd ar gyfer Sir Benfro i Reoli Cyrchfannau.

Ers hynny, mae'r Bwrdd Cysgodol wedi bod yn gweithio i sefydlu'r corff newydd, a'r gobaith oedd y byddai'r corff newydd, i'w alw yn Ymweld â Sir Benfro, yn cael ei lansio ddechrau fis Tachwedd. Roedd angen felly i'r Awdurdod benodi Aelod i fod yn Gyfarwyddwr y Bwrdd. Byddai'r Aelod a benodir yn dod yn Gyfarwyddwr Ymweld â Sir Benfro a byddai angen iddo felly fodloni gofynion a chyfrifoldebau Cyfarwyddwr Cwmni.

Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod tymor y swydd yn aneglur ar hyn o bryd gan nad yw'r Erthyglau Cymdeithasu wedi'u llunio'n derfynol eto. Fodd bynnag dywedodd mai'r disgwyl oedd y byddai unrhyw Aelod a benodir yn peidio â bod yn Aelod o'r Bwrdd ar ddiwedd Cyfnod ei Swydd ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. Eglurodd bod yr Aelodau a benodir gan Gyngor Sir Penfro yn wynebu etholiadau Llywodraeth Leol fis Mai 2022 ond er hynny eu bod yn dal yn gymwys i roi eu henwau gerbron i fod yn aelod o'r Bwrdd.

**PENDERFYNWYD** penodi'r Cynghorydd Mrs D Clements ar Fwrdd Ymweld â Sir Benfro am y cyfnod a bennir yn yr Erthyglau Cymdeithasu neu dymor y swydd ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol, p'un bynnag sydd gyntaf.

| |
|---|
| Cadarnhawyd y cofnodion hyn nghyfarfod yr Awdurdod Parc Cenedlaethol a gynhaliwyd ar 2 Rhagfyr 2020 heb eu diwygio. |